## Hysbysiad o Amrywiad i Delerau eich Contract Meddiannaeth

Daw Deddf Hawliau Rhentwyr 2025 i rym ar 1 Mai 2026.

Cafodd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ei diwygio i gynnwys dwy ddarpariaeth sylfaenol newydd yn adrannau 54A a 54B. Mae'r darpariaethau allweddol newydd hyn yn cyflwyno dau o delerau sylfaenol newydd yn eich Contract Meddiannaeth Diogel, a ddaw i rym ar 1 Mehefin 2026.

Golyga hyn fod yn rhaid darllen Datganiad Ysgrifenedig y Contract Meddiannaeth Diogel y cyfeirir ato uchod ar y cyd â'r datganiad ysgrifenedig hwn, gyda'r effaith bod y telerau sylfaenol a ganlyn yn cael eu gosod ynddo, fel a ganlyn:

### Gwaharddiad yn erbyn Deiliaid Contract sy'n hawlio budd-daliadau

Ar ôl cymal 3.4 ar dudalen 14 Datganiad Ysgrifenedig y Contract Meddiannaeth Diogel, gosodir pennawd a chymal newydd fel a ganlyn:

"*Yr hawl i hawlio budd-daliadau*

> 3.5 Ni chaiff y landlord eich gwahardd rhag hawlio budd-daliadau o fewn yr ystyr a roddir gan adran 8J Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd, Gwahaniaethu ac ati) (Cymru) 2019. (F+)"

Yn dilyn cynnwys y pennawd a'r cymal newydd uchod ac yn dechrau gyda'r hyn oedd yn flaenorol yn gymal 3.5, ar gyfer pob cymal dilynol wedi hynny, bydd y rhifo'n cael ei gywiro fel bod y cymalau'n cael eu hail-rifo'n briodol yn unol â'r fformat gwreiddiol. H.y. bydd cymal gwreiddiol 3.5 yn dod yn 3.6 a'r drefn rifo'n ail-ddechrau.

### Gwaharddiad ar wahaniaethu yn erbyn pobl â phlant

Ar ôl cymal 4.4 y dudalen 16 bresennol yn Natganiad Ysgrifenedig o Delerau'r Contract Meddiannaeth Diogel, bydd pennawd newydd yn cael ei gynnwys fel a ganlyn:

*"Yr hawl i blant fyw mewn annedd neu ymweld â hi*

> 4.5(1) Yn amodol ar baragraff 2 y telerau hyn, gallwch ganiatáu i unigolyn nad yw wedi cyrraedd 18 oed fyw yn yr annedd neu ymweld â hi. (F+)
>
> (2) Rhaid i'r landlord beidio ag ymyrryd neu gyfyngu ar eich hawl dan baragraff (1) y telerau hyn, os nad yw'r ymyrraeth neu gyfyngiad yn ffordd gymesur o gyflawni nod gyfreithiol (F+).

Yn dilyn cynnwys y pennawd a'r cymal newydd uchod ac yn dechrau gyda'r hyn oedd yn flaenorol yn gymal 4.5, ar gyfer pob cymal dilynol wedi hynny, bydd y rhifo'n cael ei gywiro fel bod y cymalau'n cael eu hail-rifo'n briodol yn unol â'r fformat gwreiddiol. H.y. bydd cymal gwreiddiol 4.5 yn dod yn 4.6 a'r drefn rifo'n ail-ddechrau.